

# PECYN RECRIWTIO AELOD NEWYDD

Dyfodol Ni
OUR FUTURE

Safe Space to Speak
Safle Saff i Siarad




# TABL CYNNWYS

1 Croeso

2 Pwy yw $S^3$?

3 Y Rôl: Aelod Bwrdd

4 Am bwy ry’n ni'n chwilio

5 Beth sydd ynddo fe i ti?

6 Sut i wneud cais

# CROESO!

Helo!

Ry’n wrth ein bodd dy fod yn ystyried gwneud cais i ymuno â $S^3$ (Safe Space to Speak / Safle Saff i Siarad).

Cyn i ti wneud cais, dylet ti wybod ychydig am beth mae’n golygu. Mae’r pecyn hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o brosiect Dyfodol Ni ac $S^3$, ond os oes ‘da ti unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i ti gysylltu â **dyfodolni@area43.co.uk**.



# PWY YW $S^3$?

Safe Space to Speak / Safle Saff i Siarad, $S^3$ ydyn ni. Ni yw bwrdd llywodraethu a phenderfynwyr cynradd Dyfodol Ni. Ry'n ni'n grŵp amrywiol o bobl ifanc o bob rhan o Geredigion, a ni yw'r corff sy'n cynrychioli pobl ifanc ar draws y sir. Byddwn yn lobïo am farn ac uchelgeisiau pobl ifanc yng Ngheredigion.

## PRIF NOD EIN HYMGYRCH YW SEFYDLU RHWYDWAITH O FANNAU DIOGEL I BOBL IFANC, A CHRYFHAU LLAIS IEUENCTID.

Ein nod yw gweithredu fel math o undeb i bobl ifanc, gan gynrychioli llais ieuenctid ar bwyllgorau a gyda grwpiau llywio. Y bwriad yw y bydd rhaid i unrhyw brosiect neu ddatblygiad sy'n honni ei fod er budd pobl ifanc ymgynghori ag $S^3$ yn gyntaf. Byddwn yn mynnu bod pobl mewn grym yn gwrando ar farn pobl ifanc.



# Y RÔL: AELOD BWRDD



JACK SPRINGER, BOARD MEMBER

Byddwn yn cyfarfod yn fisol i adolygu cynnydd Dyfodol Ni, trafod amcanion ein hymgyrch, sut y byddwn yn symud ymlaen, a chyfarwyddo symudiadau'r prosiect. Byddwn yn lobïo dros newid, ac yn cynrychioli llais pobl ifanc Ceredigion.

**Bydd cyfrifoldebau'n cynnwys:**

- Mynychu holl gyfarfodydd (wyneb yn wyneb ac yn rhithwir)
- Sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal mewn modd sy'n gyson â'n gwerthoedd fel grŵp.
- Mynychu cyfarfodydd ychwanegol o fyrddau strategol, prosiectau newydd neu brosiectau sy'n datblygu
- Ymwneud ag allgymorth i sefydliadau, deiliaid diddordeb, byrddau strategol, prosiectau newydd ac ati i hyrwyddo nodau'r ymgyrch
- Gwneud penderfyniadau ar gynnydd Dyfodol Ni
- Goruchwylio cynnydd Llyw a Byw, monitro a gwerthuso'r gwasanaeth
- Recriwtio aelodau newydd, ac eistedd ar baneli recriwtio ar gyfer Llyw a Byw
- Gwerthuso ymgynghori parhaus gyda phobl ifanc, ac addasu gwasanaethau ac amcanion ymgyrchu yn ôl yr angen
- Datblygu a chynnal presenoldeb cyfryngau cymdeithasol a marchnata
- Ymgysylltu â'r wasg a mannau hyrwyddo eraill lle bo angen
- Cynnal ymchwil ar nodau'r ymgyrch a chael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a materion newydd a rhai sy'n datblyg

# AM BWY RY'N NI'N CHWILIO

POBL IFANC OED 14-25

YN BYW YNG NGHEREDIGION, NEU SYDD Â MYNEDIAD AT WASANAETHAU YN Y SIR.

NID OES ANGEN UNRHYW BROFIAD BLAENOROL NA CHYMWYSTERAU



- Rwyt ti'n angerddol am safiad bod o dan arweiniad ieuenctid Dyfodol Ni, a'r materion y mae'r prosiect yn awyddus i ddatrus
- Mae angerdd gen ti i wneud pethau'n well i bawb
- Rwyt ti'n poeni am hyrwyddo materion sy'n bwysig i bobl ifanc
- Rwyt ti'n dda am weithio gyda grŵp o bobl ifanc eraill
- Rwyt ti am gynrychioli barn a gwaith pobl ifanc i bobl eraill gan gynnwys cyllidwyr, darparwyr gwasanaethau, a chomisiynwyr gwasanaethau
- Rwyt ti'n gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau, profiadau, sgiliau a gwybodaeth pobl eraill
- Mae amser gen ti i'w gymryd i wneud y rôl hon (lleiafswm cyfarfod misol, am 12 mis)
- Rwyt ti'n fodlon dweud y gwir wrth rym, a bod yn ddiymddiheuriad a phenderfynol yn dy agwedd tuag at gynrychioli pobl ifanc



# BETH SYDD YNDDO FE I TI?

Mae S³ yn rhywbeth cwbl newydd: corff cynrychioliadol ar gyfer pobl ifanc sy'n gwbl ar wahân i strwythurau pŵer traddodiadol. Ry'n ni heb wneud hyn erioed o'r blaen, felly dyma dy gyfle i helpu i lunio ac arwain ffordd newydd sbon o weithio a dylunio gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl, a chynrychiolaeth wirioneddol i bobl ifanc. Gobeithiwn y byddi di yn ennill llawer o brofiad defnyddiol a sgiliau cyflogadwyedd y gallu eu defnyddio ar y prosiect hwn, ac a fydd o werth yng ngweddill dy fywyd a dy yrfaoedd hefyd.

- Sgiliau cydweithio uwch, datblygu syniadau, rhedeg ymgyrchoedd, a chynrychioli eraill, trwy gyrchu rhaglen hyfforddi bwrpasol
- Cydgynhyrchu – cydweithio â phobl ifanc eraill, Partneriaid, sefydliadau a deiliaid diddordeb i greu rhywbeth
- Gweithio gyda chyllidebau
- Gwaith grŵp a thîm
- Sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys siarad cyhoeddus, 1:1, a thrafodaethau grŵp
- Trin gwahanol fathau o ddata
- Ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd
- Hunanreolaeth a dibynadwyedd

**YN OGYSTAL Â HYNNY OLL, BYDDI DI'N DATBLYGU HYDER AC YMWYBYDDIAETH O SUT MAE DEFNYDDIO DY SGILIAU NEWYDD. RY'N NI HEFYD YN GOBEITHIO Y BYDDI DI'N GWNEUD FFRINDIAU A CHYSYLLTIADAU NEWYDD, Y BYDD MODD I TI ALW ARNYN NHW I GAEL CYMORTH A CHEFNOGAETH GYDA DY YRFA YN Y DYFODOL.**

# SUT I WNEUD CAIS



## I WNEUD CAIS, ATEBA'R TRI CHWESTIWN CANLYNOL:

- Pam wyt ti am ymuno?
- Beth sy'n dy ysbrydoli?
- Beth yw dy hoff bwynt o'n Maniffesto a pham?

Cyflwyna dy gais ym mha bynnag ffordd yr hoffet. Cei fod mor greadigol neu mor ffurfiol ag y dymuna fod, pa bynnag ffordd sydd hawsaf i ti fynegi dy hun.

Beth bynnag y byddi'n ei anfon, rho dy enw yn nheitl y ddogfen fel gallen ni weld o bwy mae'n dod.

Rydym mor falch bod gennyt ddiddordeb mewn ymuno â $S^3$
Os oes gen ti unrhyw gwestiwn cyn i ti wneud cais, cysyllta â ni.

Dylid anfon yr holl geisiadau i **S3@dyfodolni.co.uk.**